**Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD** **STD 01-02(04)**

**Dyddiad:** **Dydd Mercher 20 Mawrth 2002**
**Amser:** **9:30am**
**Lleoliad:** **Ystafell Bwyllgora 2, Adeilad y Cynulliad Cenedlaethol**
**Teitl:** **Datgelu Trafodion Preifat y Pwyllgorau**

Mae'r Llywydd wedi mynegi pryderon ynghylch y ffaith bod Aelodau'n datgelu trafodion Pwyllgorau sydd, o dan y Rheolau Sefydlog, i'w cynnal yn breifat. Y mae wedi gofyn i'r Pwyllgor ystyried y mater, fel mater o egwyddor sy'n berthnasol i ymddygiad Aelodau'n gyffredinol, o dan Reol Sefydlog 16.1 (iii).

Yn benodol, y mae wedi gofyn am gyngor y Pwyllgor ar fater datgelu trafodion preifat Pwyllgorau. Y mae hefyd wedi gofyn am farn y Pwyllgor ar feirniadaeth anffafriol o ymddygiad y Llywydd ei hun tra'i fod yn cyflawni ei ddyletswyddau.

Nid yw'r Llywydd yn bwriadu gwneud dyfarniad buan ar y mater hwn, ac mae wedi dweud na fyddai ganddo unrhyw wrthwynebiad petai'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn briodol cynnwys y mater hwn yn yr adolygiad y mae'r ymgynghorydd newydd yn ei gynnal.

Efallai y bydd y Pwyllgor yn dymuno ystyried y mater hwn ochr yn ochr â'r cais gan Banel y Cadeiryddion [STD 01-02(03)] i ymchwilio i fater datgelu adroddiadau pwyllgorau heb yr awdurdod i wneud hynny.

Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y mater a chynghori'r Llywydd yn unol â hynny.

***Yr Ysgrifenyddiaeth***